

Termau allweddol

Term	Diffiniad
Wal geudod	Wal wedi'i ffurfio gyda chroen strwythurol mewnol a chroen allanol, neu ddalen, y ddwy mewn gwaith maen, wedi'u gwahanu gan geudod.
Fframiau porth	Fel arfer, ffrâm un llawr, rychwant clir gyda rafftiau dwbl, bas, ar ongl wedi'i hategu gan golofnau, ar blatiau gwaelod ar sylfeini pad.
Ffrâm sgerbwd	System o golofnau a thrawstiau cysylltiedig sy'n ategu'r lloriau mewnol a'r waliau allanol ac yn cario pob llwyth i'r sylfeini.
Ffrâm gleddog	Ffurf ffrâm sgerbwd lle mae'r systemau angori fel slabiau llawr ac adrannau dur croeslinol wedi'u cynllunio i drosglwyddo llwythi ochrol i'r brif ffrâm.
Ffrâm bren	Ffrâm sgerbwd wedi'i hadeiladu o adrannau pren wedi'u graddio.
Ffrâm falŵn	Ffurf ffrâm bren lle mae'r stydiau wal yn ymestyn o'r sylfaen i'r trawstiau.
Ffrâm uchder llawr	Cyfeirir ati hefyd fel ffrâm blatfform. Math o ffrâm bren lle mae pob llawr yn cael ei ffurfio gan baneli llawr i nenfwd a dec llawr, sef y platfform ar gyfer y llawr nesaf.
Paneli Strwythurol wedi'u Hinswleiddio (SIPs)	Paneli cyfansawdd parod gydag inswleiddio wedi'u gwrthio rhwng wynebaw strwythurol.

DEUNYDDIAU

Gwaith brics - Adeiladu waliau gwaith maen solet mewn brics, a ddefnyddir yn aml fel wyneb allanol mewn waliau ceudod neu fel cladin i fframiau strwythurol.

Gwaith bloc - Adeiladu gwaith maen solet mewn bloc concrit, a ddefnyddir ar gyfer waliau cydrannol, rhaniadau ac fel inswleiddio a/neu elfen strwythurol mewnol wal geudod.

Pren gradd strwythurol - Yn seiliedig ar fesuriadau o gryfder a graddau'r diffygion corfforol. C16 a C24 yw'r graddau mwyaf cyffredin o bren meddal a ddefnyddir yn y DU (mae C yn sefyll am conwydd). Mae C24 yn gryfach, yn fwy gwydn, ond yn ddrutach na C16, sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o waith coed.

Dur strwythurol - Dur wedi'i rolïo'n boeth a ddefnyddir i ffurfio adrannau safonol fel trawstiau a cholofnau cyffredinol, distiau, a sianelau, drwy basio'r dur wedi'i wresogi drwy roleri sy'n ei bwysu i'r maint a'r siâp gofynnol.

Concrit wedi'i rag-gastio - Concrit wedi'i baratoi oddi ar y safle mewn amgylchedd rheoledig gan ddefnyddio mowldiau y gellir eu haildefnyddio. Fe'i defnyddir fel arfer ar gyfer elfennau strwythurol, gan gynnwys trawstiau, colofnau, lloriau a grisïau.

Concrit ar y safle (*insitu*) - Concrit sy'n cael ei gastio ar y safle gan ddefnyddio gwaith ffurfio, gydag atgyfnerthiad wedi'i leoli cyn bwrw, a ddefnyddir ar gyfer is-strwythurau ac ar gyfer elfennau strwythurol, gan gynnwys trawstiau, colofnau a lloriau.



ADEILADU WALIAU CEUDOD

Math traddodiadol o adeiladu gyda lloriau uchaf a strwythurau to wedi'u hategu ar groen mewnol y gwaith maen sy'n dal llwythau. Mae'r ceudod yn atal lleithder sy'n treiddio a gellir ei lenwi'n rhannol ag inswleiddio. Mae'r croen mewnol yn aml yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio gwaith bloc sy'n inswleiddio.

FFRAMIAU PORTH

Gellir ffurfio adeilad gan ddefnyddio cyfres o fframiau porth cyfochrog, 6m ar wahân fel arfer, sy'n cael eu cysylltu â thrawstiau bondo strwythurol. Bydd y fframiau'n darparu rychwant clir ac yn cynnwys trawstiau pâr, bas, wedi'u gosod a ategir gan golofnau, ar blatiau sylfaenol ar sylfeini pad.

Fel arfer, caiff fframiau porth eu creu o ddur strwythurol, er bod concrit wedi'i atgyfnerthu a phren wedi'i lamineiddio hefyd yn cael eu defnyddio. Maen nhw'n strwythurau ysgafn y gellir eu creu oddi ar y safle a'u codi ar y safle gyda cholofnau wedi'u bolltio i is-strwythur. Byddan nhw'n cynnwys:

- Hanshys neu fracedi yn yr uniadau rhwng y trawstiau a'r colofnau i'w gwneud yn 'anhyblyg', sy'n arwain at drosglwyddo'r foment blygu yn y trawstiau i'r colofnau, a chaniatáu i'r trawstiau gael eu lleihau o ran maint o'u cymharu â'r rychwant clir. Defnyddir bracedi tebyg ar lefel y crib i ffurfio uniad rhwng y trawstiau pâr.
- Angori o leiaf un bae ochr fesul golwg i roi sefydlogrwydd ochrol i'r rhes o fframiau cyfochrog.
- Mae angen fframwaith eilaidd o drawslathau sydd wedi'u gosod ar y trawstiau a'r rheiliau sydd wedi'u gosod ar y colofnau er mwyn ategu cladin fel dalenni wedi'u proffilio neu baneli metel cyfansawdd parod.
- Mae'n bosibl bod cladin gwaith maen rhwng y colofnau yn aml yn cael ei gynnwys ar lefel isel er mwyn rhoi mwy o wrthiant rhag difrod a gwella diogelwch.

Defnyddir fframiau porth yn aml wrth adeiladu adeiladau diwydiannol ysgafn. Maen nhw'n ffurf syml a chyflym o strwythur i'w godi, ac yn creu man amgaaedig eang, clir, gwrth-dywydd am gost gymharol isel.